# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 16 TACHWEDD 2017, AM 2.00 PM

Presennol

Y Cynghorydd LM Walters – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CA Green | JE Lewis | JR McCarthy | MJ Kearn |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | A Williams | AJ Williams |
| MC Clarke | A Hussain | | |

Mrs J Williams – Aelod Lleyg

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RM Granville

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Randal Hemingway | Pennaeth Cyllid |
| Mark Jones | Rheolwr Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Helen Smith | Prif Archwilydd Mewnol |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Satwant Pryce | Pennaeth Adfywio Datblygu a Eiddo |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| John Llewellyn | Arweinydd Tim Archwilio Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru |

## 24. DATGAN BUDDIANNAU

Nododd y Cynghorydd M Clarke fod ganddo fuddiant personol yn eitem rhif 6 ar yr agenda – Asesu Risg Corfforaethol 2017-18 – Risgiau yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau fel Cyfarwyddwr Cymdeithas Twristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr ac fel Ymddiriedolwr / Cyfarwyddwr Harbwr Porthcawl.

## 25. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017 fel cofnod cywir cyhyd ag y bod enw Mrs J Williams yn cael ei gynnwys yn y rhestr o'r rhai a oedd wedi ymddiheuro am eu habsenoldeb.

## 26. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2017-18

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad canol blwyddyn a'r alldro canol blwyddyn cysylltiedig â gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion sut roeddent yn cydymffurfio â pholisïau ac arferion y Cyngor.

Er mwyn sicrhau bod gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn cael eu harchwilio'n effeithiol yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, dywedodd fod y Pwyllgor hwn wedi'i enwebu i fod yn gyfrifol am sicrhau bod strategaethau a pholisïau rheoli'r trysorlys yn cael eu harchwilio'n effeithiol. Dywedodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol yn ystod hanner cyntaf 2017-18. Dywedodd hefyd fod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017-18 a'r Alldro Canol Blwyddyn wedi'u cyflwyno i'r

Cyngor ar 1 Mawrth 2017 ac 1 Tachwedd 2017 a hefyd fod yr adroddiad monitro chwarterol wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2017.

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 grynodeb o weithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn ystod hanner cyntaf 2017-18 gan ddweud wrth y Pwyllgor nad oedd y Cyngor wedi cael benthyciad hirdymor ers mis Mawrth 2012 ac nid oedd disgwyl y byddai'n rhaid iddo wneud hynny yn 2017-18. Dywedodd ei fod wedi cael benthyciad tymor byr gwerth £2 miliwn ar 24 Mai 2017 at ddibenion llif arian, a bod y benthyciad wedi'i ad-dalu ar 5 Mehefin 2017. Roedd llifau arian ffafriol wedi creu cyllid dros ben i'w fuddsoddi, meddai, a £44 miliwn oedd balans y buddsoddiadau ar 30 Medi 2017, a'r gyfradd llog ar gyfartaledd oedd 0.48%.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 hefyd fod y Cyngor yn buddsoddi mewn dosbarthiadau asedau mwy diogel a/neu fwy cynhyrchiol yn ystod 2017-18 ac, er mwyn medru defnyddio'r rhan fwyaf o'r gwahanol fathau o offerynnau, mae'n ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio cyfrif(on) enwebedig gyda thrydydd parti i sicrhau bod yr offerynnau'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cyfrif gwarchodol. Ar ôl cael cymeradwyaeth y Cabinet ar 5 Medi 2015, agorodd y Cyngor gyfrif gwarchodol gyda King & Shaxson. Agorodd y Cyngor gyfrif hefyd gyda CCLA Public Sector Deposit Fund ym mis Awst 2017. Cronfa yw hon sy'n cronni arian y sector cyhoeddus mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn llwyr ag egwyddorion a gwerthoedd y sector cyhoeddus.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, o dan God Rheoli'r Trysorlys a Chod Darbodus 2011, bennu nifer o Ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus a chyflwyno adroddiad arnynt. Dywedodd fod y dangosyddion naill ai'n crynhoi'r gweithgarwch disgwyliedig neu'n cyflwyno cyfyngiadau ar y gweithgarwch, ac yn adlewyrchu'r rhaglen gyfalaf sylfaenol.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y ffaith bod Banc Lloegr wedi codi Cyfradd y Banc yn ddiweddar ac roedd hyn yn groes i ragolygon Arlinglcose, cynghorwyr yr adran Rheoli'r Trysorlys, a oedd wedi rhagweld na fyddai'r gyfradd, sef 0.25%, yn newid. Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 nad oedd Arlingclose, pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, yn disgwyl i Gyfradd y Banc godi, ond nid felly y bu.

PENDERFYNWYD: Nodi Gweithgareddau Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2017-18 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 30 Medi 2017 a Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Rhagamcanol 2017-18 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 1 Tachwedd 2017.

27. BUDD-DALIADAU TAI – ARCHWILIO SAMPL

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 adroddiad ar ganlyniad y gwaith ychwanegol a wnaed i ddod o hyd i gamgymeriadau ym maes budd-daliadau tai, yn dilyn gwaith gan Swyddfa Archwilio Cymru. I wneud hynny, defnyddiwyd sampl o 45 o achosion budd-dal tai. Cafwyd hyd i gamgymeriadau mewn 11 achos a, drwy ddefnyddio dulliau archwilio arferol i gyfrifyddu, daethpwyd i'r casgliad y byddai'r camgymeriadau damcaniaethol yn cyfateb i oddeutu £1.9 miliwn. Dywedodd fod y Pwyllgor wedi clywed yn y cyfarfod blaenorol mai unig ddiben y gwaith hwn oedd gweld i ba raddau y byddai mater penodol yn effeithio ar gyfrifon y Cyngor. Dywedodd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu y byddai'n cael cryn effaith, ond nid oedd yn fater o bwys yn natganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2016-17.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 fod swyddogion wedi ymgymryd â rhagor o waith i benderfynu a oedd hon yn broblem sylfaenol ehangach. Am bob un o'r tri math o gamgymeriad a arweiniodd at addasiadau ariannol, roedd 40 achos arall

wedi'u harchwilio, gan roi cyfanswm o 120 o achosion. Cyflwynodd grynodeb o ganlyniadau'r archwiliadau ychwanegol; cafwyd hyd i 3 chamgymeriad ac roedd angen gwneud addasiadau ariannol yn achos 2 o'r rhain. Yn y naill achos, gwnaed tandaliad o £7.51 gan fod pensiwn gwaith/galwedigaethol wedi'i gyfrifo'n anghywir. Yn yr achos arall, gwnaed gordaliad o £29.06 gan fod enillion wedi'u cymhwyso'n anghywir. Roedd yn ofynnol, meddai, i Swyddfa Archwilio Cymru archwilio'r sampl o 120 o achosion ymhellach. Byddai hynny'n golygu archwilio sampl o 10% o bob math o achos, yn ogystal â'r 3 chamgymeriad a nodwyd.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio gwariant ar ad-dalu rhent o'r Cyfrif Refeniw nad yw'n ymwneud â Thai. Roedd y gwaith archwilio hwn, meddai, yn angenrheidiol fel rhan o archwiliadau arferol Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud â gwariant blynyddol y Cyngor ar fudd-dal tai. Dywedodd fod nifer o gamgymeriadau wedi dod i'r amlwg a bod pob asesiad gwely a brecwast, sef 68 i gyd, wedi'u harchwilio. Roedd yr un camgymeriad wedi codi ym mhob achos, ac roedd costau tanwydd anghymwys wedi'u gorddatgan, gwerth £1.93 yr wythnos, gan arwain at dandaliad. Roedd pob achos wedi'i gywiro, meddai, ac roedd y tandaliadau'n amrywio o rhwng £0.28 a £25.09, ond roedd un cymaint â £61.20. Dywedodd hefyd mai £347.28, at ei gilydd, oedd gwerth y camgymeriad, a chyfanswm y gwariant oedd oddeutu £37,000. Nododd fod yr holl achosion wedi'u cywiro a bod y taliadau cywir wedi'u gwneud. Roedd y camgymeriad i'w briodoli i wahaniaeth hanesyddol rhwng cyfraddau gwely a brecwast a didyniadau statudol a oedd wedi newid dros amser. Byddai hyn yn cael ei wirio fel rhan o'r archwiliad blynyddol rhag i'r camgymeriad godi eto. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod o hyd i un camgymeriad arall yn y sampl ac roedd hyn wedi effeithio ar y cais am gymhorthdal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ( £0.72). Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig nodi bod yr elfen hon o'r Budd-dal Tai yn cael ei dalu i Adran Dai'r Cyngor ac nad oedd y symiau a adlewyrchir uchod wedi effeithio ar unigolion mewn llety dros dro ac mai'r effaith ar y cymhorthdal roedd y Cyngor yn ei hawlio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau oedd £61.20.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 hefyd fod 20 o achosion nad oeddent yn gysylltiedig â llety gwely a brecwast wedi'u harchwilio, a chafwyd hyn i un camgymeriad yn ymwneud â chyfrifo cyfartaledd misol ar gyfer incwm pensiwn galwedigaethol; o ganlyniad, gwnaed tandaliad o £0.10. Dywedodd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn am archwiliadau ychwanegol o achosion yn ymwneud ag incwm pensiwn galwedigaethol a bod y rhan fwyaf yn y categori hwn yn cael budd-daliadau a 'basbortiwyd'. Roedd Rheolwr y Tîm Budd-daliadau wedi archwilio pob un achos yng Nghell 11 ac ni ddaeth unrhyw gamgymeriadau eraill i'r amlwg o ran oedran pensiwn neu incwm pensiwn galwedigaethol. Byddai Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn adolygu'r achosion hyn, ac roedd hefyd wedi dechrau archwilio 'cynlluniau a addaswyd' (cynlluniau rhyfel fel arfer) ac roedd y gwaith hwn yn parhau.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 wrth y Pwyllgor fod gwerth y camgymeriadau a ddaeth i'r amlwg yn llawer llai na'r hyn y cafodd y Pwyllgor wybod amdanynt yn flaenorol ac a gyhoeddwyd ar y cyfryngau.

Cadarnhaodd Rheolwr Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru fod y gwaith o archwilio achosion yn mynd rhagod ac y byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod am y canlyniadau mewn cyfarfod yn y dyfodol fel rhan o'r adroddiad ar Ardystio Grantiau ac Enillion. Cadarnhaodd hefyd fod 120 o achosion wedi'u harchwilio a bod sampl o 10% o achosion wedi'u dewis, a bod 3 chamgymeriad wedi dod i'r amlwg, ac y bu'n rhaid gwneud addasiadau ariannol yn achos dau o'r rhain. Cynhaliwyd archwiliad ychwanegol o'r sampl o 120 o achosion gan ddewis 12 ohonynt. O'r rhain, nid oedd camgymeriad mewn 7 achos, ac roedd ymholiadau'n parhau yn achos y gweddill a byddai'r rhain yn cael eu cwblhau'r wythnos nesaf. Roedd angen archwilio tri achos arall yn ymwneud â'r

Cyfrif Refeniw nad oedd yn ymwneud â Thai. Dywedodd fod Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ceisiadau nad oeddent yn ymwneud â grantiau ac, yn ystod y flwyddyn diwethaf, roedd amodau ynghlwm wrth nifer o'r achosion hynny. Hyd yma, ni nodwyd unrhyw amodau eleni. Roedd y sefyllfa o ran achosion Budd-daliadau nad oeddent yn ymwneud â Thai yn amlwg wedi gwella.

Gofynnodd y Pwyllgor pryd y byddai swyddogion yn gallu cadarnhau a oedd problem sylfaenol ehangach yn bod ai peidio. Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 wrth y Pwyllgor fod Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio dull archwilio ac roedd yn hyderus nad oedd y camgymeriadau cyn waethed â'r hyn a gyhoeddwyd ar y cyfryngau. Roedd swyddogion wedi archwilio rhagor o achosion ac roedd yn bosibl rhoi rhagor o sicrwydd nad oedd camgymeriadau ynghlwm wrthynt. Dywedodd hefyd fod angen i Swyddfa Archwilio Cymru adolygu gwaith y swyddogion yn y cyswllt hwn. Dywedodd nad oedd unrhyw wendidau sylfaenol o ran rheoli ac roedd angen sicrhau cydbwysedd rhwng prosesu ceisiadau am fudd-dal tai'n gyflym a sicrhau cywirdeb, ond tanlinellodd fod pob achos yn wahanol. Nododd hefyd ei bod yn bwysig prosesu ceisiadau'n gyflym ond nid ar draul cywirdeb. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod yr holl gamgymeriadau a ddaeth i'r amlwg i'w priodoli i gamgymeriad gan staff. Roedd y rheolwyr yn gwirio'r gwaith yn amlach yn awr a'r nod oedd sicrhau nad oedd unrhyw gamgymeriadau'n codi.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

28. ASESIAD RISG CORFFORAETHOL 2017-18 – RISGIAU YN Y GYFARWYDDIAETH CYMUNEDAU

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaethau gyflwyniad i'r Pwyllgor ar y disgwyliadau ar y rhwydwaith priffyrdd yn y tymor hir a'r tymor byr. Amlinellodd faint yr her; roedd ased cerbytffordd 780km o hyd, gwerth £888 miliwn gan yr awdurdod. Dywedodd fod yr awdurdod yn gwario cyfanswm o £500,000 ar y gwaith o roi wyneb newydd ar y gerbytffordd, sy'n cyfateb i lai na 0.1% o werth y rhwydwaith. Gwariant cyfatebol awdurdodau cyfagos yw £2.5 miliwn yn Rhondda Cynon Taf, £886 yng Nghastell-nedd Port Talbot ac £800,000 ym Mro Morgannwg.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor fod dyletswydd ar yr awdurdod priffyrdd i gynnal a chadw priffyrdd y gellir eu cynnal a'u cadw ar bwrs y wlad ac mae dyletswydd arno hefyd i ddiogelu hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r priffyrdd. Tynnodd sylw at y meini prawf ymyrryd lle mae'r awdurdod yn cynnal archwiliadau ac yn ymgymryd â gwaith trwsio os yw'r diffygion yn waeth na'r Meini Prawf Diffygion Diogelwch. Mae'r meini prawf wedi'u seilio ar arfer da ac, yn gyffredinol, mae'r llysoedd yn eu derbyn fel lefelau rhesymol ac maent yn debyg ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru ac, yn gyffredinol, yn y DU. Ystyrir hefyd ffactorau fel atal sgidio a systemau draenio / ffosydd i atal dŵr rhag cronni ar y gerbytffordd, mesurau i ymdrin â phantiau i atal pyllau o ddŵr, monitro gwaith cyfleustodau a chynnal a chadw adeileddau.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor mai £100/m2 oedd y gost o lenwi tyllau yn y ffordd a £10/m2 oedd y gost o roi wyneb newydd arni. Ar ôl llenwi tyllau am 25 o flynyddoedd (neu cyn hynny hyd yn oed), byddai angen ailadeiladu'r ffordd yn ei chyfanrwydd a 25 o flynyddoedd ar ôl cael wyneb newydd, byddai'r briffordd mewn cyflwr cyffredinol dda a dim ond mân waith trwsio fyddai ei angen. Nododd fod hawliadau'n gyffredinol yn amrywio o £200 i drwsio teiars i hyd at £30,000 am Anaf Personol. Dywedodd fod y rhain yn ymwneud yn bennaf â thyllau yn y ffordd, ond bod atal sgidio hefyd yn agwedd dyngedfennol o gynnal a chadw'r gerbytffordd. Yn y cyswllt hwn, gallai diffygion arwain at anafiadau a allai newid bywydau a/neu farwolaeth ac y gellid dwyn achos o Ddynladdiad Corfforaethol yn erbyn yr awdurdod.

Dangosodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth graff yn dadansoddi cyflwr y ffyrdd. Oherwydd pwysau cynyddol ar y gyllideb refeniw, bydd nifer y ffyrdd sydd mewn cyflwr da yn gostwng ac amcangyfrifwyd y byddai angen cynnydd o £1 miliwn yn y gyllideb refeniw. Dangosodd graff arall yn dangos y bydd problemau ar dros 60% o'r rhwydwaith. Os buddsoddir £2 miliwn bob blwyddyn, bydd problemau ar 30% o'r rhwydwaith ac, ar ôl ugain mlynedd, bydd angen gwariant cyfalaf ychwanegol o £40 miliwn. Yn ogystal â'r pwysau cynyddol ar y gyllideb refeniw, ar ôl ugain mlynedd, meddai, byddai'n costio rhyw £48 miliwn i sicrhau bod cyflwr y rhwydwaith cystal ag ydyw heddiw. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod rhai ffyrdd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ymarferol a'r unig ddewis oedd rhoi wyneb newydd arnynt.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor fod £2 miliwn wedi'i fuddsoddi bob blwyddyn, dros gyfnod o dair blynedd, drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Cymru, ac roeddparhau i lenwi tyllau ar y rhwydwaith o hyd ac y byddai angen trwsio'r rhain eto ymhen rhai blynyddoedd. Bydd cost hawliadau trydydd person yn codi, ac nid yw prinder adnoddau'n amddiffyniad. Ni fydd buddf canfyddiad ymhlith y cyhoedd nad yw'r Cyngor yn gwario digon ar drwsio ffyrdd a bydd hynny'n gwaethygu. Dywedodd wrth y Pwyllgor y gellir osgoi costau drwy atal problemau/ymyrryd yn gynnar ac, yn y pen draw, daw amser pan na fydd modd parhau i lenwi tyllau. Mae dogfennau cenedlaethol yn awgrymu y gellir sicrhau bod y rhwydwaith yn cael ei ddiogelu drwy gynyddu gwaith cynnal a chadw ataliol, a bod angen gwneud penderfyniadau anodd yn fuan ynghylch cau ffyrdd.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y ffaith nad oedd y risgiau a oedd ynghlwm wrth ostwng cyllideb y Gyfarwyddiaeth Cymunedau wedi'u disgrifio'n ddigonol ac roedd yn teimlo bod angen eu cryfhau. Cyfeiriodd y Pwyllgor at y posibilrwydd y gallai'r awdurdod wynebu achos o ddynladdiad corfforaethol gan ofyn a fyddai modd cofnodi hynny fel risg. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth y gellid cynnwys dynladdiad corfforaethol yn y gofrestr risgiau yn y dyfodol. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod gan yr Adran gynllun archwilio cadarn ac, os bydd yn parhau i gynnal archwiliadau'r gyson, ac yn parhau i gynnal a chadw'r rhwydwaith i drwsio diffygion, bydd yr Adran wedi gwneud popeth rhesymol i leihau'r risg. Ystyrir bod y risg o wynebu achos o ddynladdiad corfforaethol yn isel, ond wrth i adnoddau'r Cyngor brinhau o hyd, byddai'r posibilrwydd i hynny fod yn risg yn cynyddu. Dywedodd fod y Cyngor yn amddiffyn 70% o'r hawliadau a gyflwynwyd yn ei erbyn.

Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn ddefnyddiol i'r Gyfarwyddiaeth fod â Chofrestr Risg ond roedd yn teimlo nad oedd y risgiau a gofnodwyd wedi'u cwblhau'n ddigonol ac roedd angen iddynt adlewyrchu'r mesurau risg yn well a chynnwys amserlenni. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth wrth y Pwyllgor eu bod yn modelu'r modd y defnyddiwyd y priffyrdd ac y byddai rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys yn y gofrestr risg nesaf. Nododd nad oedd y Cyngor yn buddsoddi cymaint ag awdurdodau cyfagos yn y rhwydwaith priffyrdd a bod angen gwario £2.5 miliwn bob blwyddyn ar wyneb newydd. Cytunodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 fod awdurdodau cyfagos yn buddsoddi mwy ac nad oedd ffynonellau ariannol allanol blaenorol ar gael yn awr ar gyfer y rhwydwaith.

Dywedodd y Pwyllgor fod safon y gwaith trwsio'n dda ond bod angen dangos yn y gofrestr risg bod y rhwydwaith priffyrdd yn wynebu risgiau a bod yr adnoddau'n lleihau o'r naill flwyddyn i'r llall, gan fod y cyhoedd yn sylwi pan fydd gwaith cynnal a chadw yn lleihau. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd cael arian o ffynonellau eraill. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth nad oedd ffynonellau allanol ar gael ar hyn o bryd a bod cynllun buddsoddi 5 mlynedd wedi'i gyflwyno i fuddsoddi £10 miliwn yn y rhaglen gyfalaf i wella'r rhwydwaith priffyrdd.

Dywedodd y Pwyllgor y gellid crynhoi'r risgiau'n well i danlinellu'r effaith ac i sicrhau bod yr ystyr yn glir.

Dywedodd aelod o'r Pwyllgor nad oedd y Gofrestr Risg yn cynnwys ffyrdd heb eu mabwysiadu, yn enwedig gan fod un o'r ffyrdd hyn ym Mhencoed yn hanfodol i'r rhai sy'n teithio i'r dref ac yn bwysig at ddibenion cyflogaeth. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth ei bod yn ofynnol i ddatblygwyr adeiladu ffyrdd a oedd yn cyrraedd safon ffyrdd y gellir eu mabwysiadu. Dywedodd fod achosion pan oedd y datblygwr wedi mynd i'r wal ac roedd bondiau ar waith i alluogi'r Cyngor i godi safon y ffordd er mwyn ei mabwysiadu. Ychydig o adnoddau oedd ar gael, meddai, i fabwysiadu ffyrdd. Byddai'n cysylltu â Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd i drafod y ffordd heb ei mabwysiadu ym Mhencoed.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor ynghylch cost hawliadau, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth y byddai'n rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y gost flynyddol ar gyfartaledd, ond roedd y Cyngor yn gwrthod 70% o'r hawliadau a gyflwynir.

Holodd y Pwyllgor ynghylch yr achosion hynny pan nad oedd yr awdurdod yn cyflawni ei ddyletswydd i drwsio'r rhwydwaith priffyrdd. Bryd hynny, gallai'r awdurdod wynebu hawliadau, ac roedd hynny'n bryder os oedd y rhwydwaith priffyrdd yn dirywio.

Holodd y Pwyllgor ynghylch effaith llifogydd, a'r costau ychwanegol a oedd ynghlwm wrth ddigwyddiadau o'r fath. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth y gallai tywydd oer effeithio ar y gyllideb oherwydd yr angen i raeanu, ond gallai tywydd mwyn arwain at lifogydd yr adeg yma o'r flwyddyn.

Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Yn ôl Pennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth roedd yr awdurdod yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio ag awdurdodau cyfagos i gynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd. Dywedodd fod yr awdurdod wedi lleihau costau cynnal a chadw dros y gaeaf drwy leihau nifer y cerbydau graeanu yn y Cyngor Bwrdeistref. Dywedodd hefyd fod angen cynyddu gwariant fesul cilometr ar y rhwydwaith.

Soniodd Pennaeth y Gwasanaethau Adfywio, Datblygu ac Eiddo wrth y Pwyllgor am y risgiau sy'n dod i'r amlwg oherwydd yr hinsawdd ariannol a bod economi De Cymru a'r Fwrdeistref Sirol yn dibynnu'n drwm ar y sector cyhoeddus. Dywedodd fod y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn creu ansicrwydd a bod yr Undeb yn buddsoddi'n helaeth mewn prosiectau seilwaith. Er ei bod yn anodd lleihau'r risgiau, meddai, roedd angen lleihau eu heffaith. Dywedodd hefyd fod ei Hadran yn rhoi cymorth i fusnesau bach drwy'r Fforwm Busnes; mae'n helpu pobl i gael gwaith ac yn hybu twristiaeth a phrosiectau datblygu gwledig.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Adfywio, Datblygu ac Eiddo fod ei Hadran yn buddsoddi'n sylweddol mewn prosiectau adfywio trefi drwy gynnig safleoedd i'r hailddatblygu, fel y ganolfan chwaraeon dŵr yn Rest Bay a'r prosiect i ailddatblygu Marchnad Maesteg. Roedd y gallu i fuddsoddi mewn gwaith datblygu'n dibynnu'n drwm ar yr awdurdod lleol ac am bob £1 a wariwyd, byddai £500,000 yn cael ei fuddsoddi ac am bob £1 na fuddsoddwyd, byddai £10 yn cael ei golli. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd y byddai awdurdodau lleol yn helpu economïau llai ffyniannus drwy ddefnyddio arian cyhoeddus.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Adfywio, Datblygu ac Eiddo fod y diwydiant adeiladu lleol yn ffyniannus iawn; mae'r awdurdod, fodd bynnag, yn cael trafferth recriwtio staff proffesiynol penodol fel peirianwyr a syrfewyr, a hynny oherwydd cyfyngiadau'r broses gwerthuso swyddi. Anawsterau recriwtio staff oedd y risg fwyaf i allu'r awdurdod i roi prosiectau ar waith.

Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd strategaeth adfywio ar gyfer Pencoed a pham nad oedd wedi'i gynnwys yn Gofrestr Risg fel rhai o drefi eraill y Fwrdeistref Sirol, yn enwedig gan fod y cynllun i drydaneiddio'r rheilffordd wedi'i ddileu a bod y gwaith o greu ffordd ddeuol ar bont Penprysg wedi'i ganslo. Hefyd, roedd moratoriwm yn y Cynllun Datblygu Lleol ar waith datblygu ym Mhencoed. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Adfywio, Datblygu ac Eiddo fod hyn i'w briodoli i'r ffaith nad oedd gan y dref ganolfan siopa debyg i'r hyn a oedd ar gael mewn trefi eraill yn y Fwrdeistref Sirol.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y posibilrwydd y byddai prosiect y Saith Bae ym Mhorthcawl yn esgor ar dderbyniad cyfalaf sylweddol a holodd a oedd swyddogion yn fodlon ar lefel y risg. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Adfywio, Datblygu ac Eiddo y byddai'n cynyddu lefel y risg ar gyfer Prosiect y Saith Bae.

Ystyriodd y Pwyllgor a oedd angen newid y risgiau a chanolbwyntio llai ar ganol trefi a mwy ar ganolfannau siopa. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Adfywio, Datblygu ac Eiddo fod gan ganol trefi fel Porthcawl a Maesteg gyfleusterau rhesymol a mas critigol.

Holodd y Pwyllgor am hynt y cynlluniau i drosglwyddo Asedau Cymunedol gan ofyn a oedd prinder adnoddau yn llesteirio'r broses o roi blaenoriaethau corfforaethol ar waith; ac a yw'n risg sylweddol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Adfywio, Datblygu ac Eiddo fod hyn yn risg sylweddol gan fod gan yr awdurdod 3 syrfëwr yn rheoli'r ystâd. Mae'r awdurdod hefyd, meddai, wedi cael trafferth recriwtio peirianwyr adeileddol ac roedd y gweithlu'n heneiddio.

Diolchodd y Pwyllgor i Bennaeth y Gwasanaethau Adfywio, Datblygu ac Eiddo a Phennaeth y Gwasanaethau Cymdogaeth am eu sylwadau ac am egluro'r risgiau.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi trafod y risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Corfforaethol ac y byddai'r Pwyllgor yn eu hadolygu eto yn y cyfarfod fis Ionawr. Gofynnodd i'r risgiau gael eu crynhoi ac i'r mesurau lleihau risg gael eu hystyried er mwyn deall sgôr y risgiau'n well a'u rheoli'n fwy effeithiol.

29. ASESIAD ALLANOL DIWYGIEDIG O'R CYDWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd Pennaeth yr Adran Archwilio Mewnol adroddiad ar y camau a gymerwyd yn dilyn yr Asesiad Allanol o'r Cydwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Ionawr 2017.

Dywedodd Pennaeth yr Adran Archwilio Mewnol fod yr adolygiad wedi dechrau ar 30 Ionawr 2017 a bod yr asesiad ar y safle wedi dod i ben ar 3 Chwefror 2017. Dywedodd fod adroddiad yr Asesiad Allanol ynghyd â'r Cynllun Gweithredu wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor ar 29 Mehefin 2017. Cytunwyd y byddai adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn rheolaidd i gofnodi'r cynnydd a wnaed o ran rhoi'r argymhellion a'r awgrymiadau ar gyfer gwella ar waith.

Cyflwynodd Pennaeth yr Adran Archwilio Mewnol adroddiad ar y cynnydd a wnaed ar ôl yr asesiad o ran rhoi'r 18 o argymhellion a'r 10 o awgrymiadau ar waith. Roedd 14 o'r argymhellion wedi'u cwblhau ac roedd gwaith yn parhau yn achos y 4 arall. O'r 10 o awgrymiadau ar gyfer gwella, roedd 5 wedi'u cwblhau ac roedd gwaith yn parhau yn achos 4. Roedd Pennaeth yr Adran Archwilio Mewnol yn anghytuno ag un o'r awgrymiadau ar gyfer gwella, sef y dylid ffurfioli'r trefniadau anffurfiol presennol ynghylch codi materion i'w cynnwys yn gofrestr risg. Roedd yn credu bod system ffurfiol ar waith eisoes. Byddai'n codi'r mater gyda'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad y drafodaeth.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi trafod y Cynllun Gweithredu gan nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma.

30. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM SWYDDI GWAG YN Y CYDWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

Cafwyd gwybodaeth gan y Prif Archwilydd Mewnol am y sefyllfa o ran swyddi gwag yn y Gwasanaeth. Dywedodd fod y Pwyllgor wedi mynegi pryder ynghylch nifer y swyddi gwag yn y gwasanaeth ac wedi gofyn am wybodaeth am y sefyllfa bresennol.

Dywedodd fod nifer y swyddi gwag wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd ac, ar hyn o bryd, roedd 9.5 o swyddi FTE gwag, ar sail yr hen strwythur. Gan hynny, bu'n rhaid ailstrwythuro, a daeth y system newydd i rym ar 1 Hydref 2017, pan leihawyd nifer y swyddi o 18 i 14. O ganlyniad, mae nifer y swyddi gwag wedi gostwng o 18 i 14. Rhoddodd y Prif Archwilydd Mewnol fanylion am raddfa a chyflog pob swydd wag. Dywedodd nad oedd yn glir ar hyn o bryd sut effaith fyddai'r strwythur newydd yn ei chael ar allu'r Adran i ddenu'r staff iawn i'r swyddi gwag – byddai'n rhaid aros nes byddai'r swyddi'n cael eu hysbysebu. Dywedodd y byddai'r Adran yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio ag awdurdodau eraill Cymru.

Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol fod y sefyllfa o ran y swyddi gwag wedi effeithio ar allu'r Adran i ymgymryd â'r iwrnodau archwilio arfaethedig. Gan fod nifer y diwrnodau cynhyrchiol wedi lleihau, roedd Partneriaeth Archwilio'r De-orllewin wedi'i chomisiynu i gynnal adolygiadau ar ran y Cydwasanaeth Archwilio. Roedd digon o arian yn y gyllideb bresennol i dalu am yr adolygiadau hyn. Dywedodd fod angen dechrau profi'r farchnad ond roedd y strwythur yn awr yn cyd-fynd â strwythur awdurdodau lleol eraill.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

31. ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD ALLDRO EBRILL – HYDREF 2017

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol adroddiad ar wir berfformiad yr adran Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2017 yn ystod blwyddyn y cynllun archwilio. Dywedodd fod y Cynllun yn cynnwys cyfanswm o 1,085 o ddiwrnodau cynhyrchiol yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, a chwblhawyd 313 diwrnod hyd yma, sydd gryn dipyn llai na'r disgwyl.

Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol fod strwythur cyffredinol yr Adran wedi'i seilio ar 18 o gyflogeion cyfateb i lawn amser. Fodd bynnag, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2016-17, roedd 7.5 swydd wag FTE a chododd hyn i 9.5 swydd wag FTE wedyn. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y broses o ailstrwythuro yn awr wedi'i chwblhau ac, o ganlyniad, roedd nifer y swyddi FTE wedi gostwng o 18 i 14, ac roedd nifer y swyddi gwag wedi gostwng o 9.5 i 6.5.

Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol hefyd fod 14 o swyddi wedi'u hadolygu a'u cau. Roedd y rheolwyr wedi cael barn archwilio sylweddol /rhesymol yn gyffredinol am yr amgylchedd rheoli mewnol ar gyfer y systemau dan sylw. O'r tri adolygiad arall, nodwyd gwendid sylweddol mewn dau, a hynny i'r graddau mai dim ond sicrwydd cyfyngedig a roddwyd i'r amgylchedd rheoli'n gyffredinol ac nid oedd modd rhoi barn ar un oherwydd natur y gwaith dan sylw.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd angen pennu blaenoriaethau newydd yn y cynllun archwilio oherwydd natur y swyddi gwag yn y strwythur, ac oherwydd nad oedd effaith y penderfyniad i gomisiynu Partneriaeth Archwilio'r De-orllewin i gynnal nifer o adolygiadau archwilio i'w gweld eto. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol y caiff y Cynllun Archwilio ei adolygu er mwyn gweld a ellid cwblhau'r gwaith archwilio

arfaethedig ac er mwyn adolygu'r cynlluniau wrth gefn. Dywedodd ei bod yn annhebygol y gellid recriwtio'r holl staff mewn pryd iddynt ddechrau ar eu gwaith erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Byddai adroddiad ar Gynllun Archwilio diwygiedig yn cael ei gyflwyno'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2018 a byddai'r Pwyllgor yn cael gwybod beth roedd modd ei gyflawni.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi trafod yr Adroddiad Archwilio Mewnol yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2017 i sicrhau bod pob agwedd ar eu swyddogaethau craidd wedi'u cynnwys.

32. BLAENRAGLEN WAITH DDIWYGIEDIG 2017-18

Rhoddodd y Prif Archwilydd Mewnol y wybodaeth ddiweddaraf am Flaenraglen Waith 2016/17. I helpu i sicrhau bod y Pwyllgor yn ystyried pob agwedd ar ei swyddogaethau craidd, roedd Blaenraglen Waith Ddiwygiedig wedi'i chyflwyno.

Cyfeiriodd y Prif Archwilydd Mewnol at newidiadau roedd angen eu gwneud i'r Flaenraglen Waith, gan fod Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2017-18 a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018-19, y bwriadwyd eu trafod yn y cyfarfod ar 18 Ionawr 2018, wedi'u trafod yn y cyfarfod heddiw. Byddai'r eitem yn ymwneud â'r Strategaeth Archwilio yn awr yn cael ei thrafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Ionawr 2018.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r blaenraglen waith ddiwygiedig i sicrhau y caiff adroddiad digonol ei gyflwyno ar bob agwedd ar ei swyddogaethau craidd.

33. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

34. MR RANDAL HEMINGWAY

Cyhoeddodd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf Mr Randal Hemingway, y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151, cyn iddo adael yr awdurdod i ymgymryd â swydd newydd. Diolchodd i Mr Hemingway, ar ran yr Aelodau, am ei gyngor a'i wasanaeth i'r Pwyllgor a dymunodd bob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.07 pm